

## 1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

- 1.1 Yn Bresennol: John Graystone (yn y Gadair), Gayle Hudson, June Jeremy, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Chris Franks, Cathy Clark, David Elis-Williams, Iwan Hywel, Marjorie Williams, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Heather Willbourn, Dafydd Rhys. Hefyd, Guy Wallace Smith o gofnod 3 ymlaen. Roedd gan y cyfarfod gworwm trwy gydol yr amser.
- 1.2 Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr, o gofnod 3 ymlaen), Mark Baines (Pennaeth Cyllid ac Adnoddau), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau Dynol), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni a Chlerc), Hywel Pennar (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd: Vicky Knappett (Uwch Swyddog, Adnoddau Dynol – cofnodion 1 a 2 yn unig); Betty Mason (Cydlynnydd Astudiaethau Undebau Llafur – cofnodion 1-3 yn unig); Helen Cargill (Archwilwyr TIAA – cofnod 4 yn unig).
- 1.3 Ymddiheuriadau: Julie Cook, Kaitlin Crisp, Caroline Davies, Gerry Jenson, Nick Taylor.
- 1.4 Nodwyd y cymerwyd lluniau o nifer o aelodau'r Cyngor gan ffotograffydd cyn y cyfarfod, i'w defnyddio ar wefan y sefydliad.

## 2. Cadarnhau penodiad Prif Weithredwr a dau aelod newydd o'r Cyngor

**Cadarnhawyd penodiad Kathryn Robson yn Brif Weithredwr y sefydliad yn unfrydol gan y Cyngor, yn dilyn yr ymarfer recriwtio, asesu a chyfweld a oruchwyliwyd gan y Pwyllgor Chwilio a ddaeth i ben ar 6 Tachwedd.** Cafodd rhestr fer gref o 4 o bobl eu cyfweld o blith 20 o ymgeiswyr gwreiddiol. Diolchwyd yr aelodau staff hynny ac aelodau eraill y Cyngor a oedd wedi chwarae rolau penodol yn ystod y broses am eu cyfraniad.

Ar wahân, cynigiodd y Pwyllgor Chwilio **y dylid cymeradwyo Julie Cook (fel aelod Corff Cysylltiedig a Phartner) a Guy Wallace Smith, yn dilyn eu cyfweiliadau llwyddiannus i ddod yn aelodau penodedig o'r Cyngor: cadarnhawyd y cynigion hyn yn unfrydol hefyd.**

## 3. Cyflwyniad ar ein rhaglen waith mewn Addysg Undebau Llafur

Rhoddodd Betty Mason gyflwyniad llafar a gweledol ar y maes hwn. Roedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Wales TUC Cymru yn ogystal ag undebau unigol, prifysgolion, awdurdodau unedol, cyflogwyr preifat, byrddau iechyd a sefydliadau trydydd sector. Roedd 'Dysgu yn y gweithle' yn cyfrif am hyd at 20% o'r cyfanswm cyffredinol. Roedd llawer o'r gwaith yn canolbwyntio ar sgiliau digidol, Addysg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, Iaith Arwyddion Prydain a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.

Codwyd cwestiynau gan aelodau'r Cyngor am y rhaniad daearyddol yn y ddarpariaeth a'r potensial i wneud mwy gydag awdurdodau unedol yn ne Cymru. Cafwyd cydnabyddiaeth fod lefelau cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel iawn, ond gan fod yn rhaid i bob tiwtor ddod trwy lwybr a achredir gan undebau llafur, nid oedd hon yn sefyllfa a oedd yn llwyr yn ein dwylo. Ynglŷn â'r agwedd honno, holodd un aelod o'r Cyngor p'un ai a ellir cydweithio â Chanolfannau Dysgu Cymraeg i Oedolion, gyda ni'n darparu addysg ategol yn y gweithle tra bod addysgu Cymraeg yn aros yn nwylo'r Canolfannau.

Pan ofynnwyd beth y gallai llywodraethwyr ei wneud i gyfoethogi ein gwaith yn ymwneud ag undebau llafur, atebodd Betty Mason y dylent ddefnyddio eu cysylltiadau i wthio am ragor o gyfranogiad, yn enwedig ymhlith cyflogwyr. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad.

#### 4. Rheoli Risg ar gyfer aelodau'r Cyngor – sesiwn hyfforddiant

Cyflwynodd Helen Cargill ei hun a rhoddodd gyflwyniad PowerPoint ar ran ein harchwilwyr mewnol, sef TIAA, ar risgiau cadarnhaol a negyddol, eu diffiniadau, a phwysigrwydd cynnwys rheoli risg fel rhan o drefn gwaith pawb o fewn sefydliad. Dylai risgiau a'r gofrestr risg berthyn i bawb, gan gynnwys llywodraethwyr: roedd y Pwyllgor Archwilio'n bodoli dim ond er mwyn gwirio priodoldeb y prosesau a oedd yn eu lle, yn hytrach na bod yn gyfrifol yn gyffredinol am faterion o'r fath. Trafodwyd materion megis mesurau rheoli, tebygolrwydd ac effaith risg, a sgorio risgiau gweddilliol, yn ogystal ag agwedd sefydliadau tuag at risg. Tanlinellodd bwysigrwydd symud yn y pen draw o fod â strategaeth rheoli risg i weithredu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ehangach; roedd datblygu Fframwaith o'r fath yn arfer da, a ddylai fod yn system syml a chyson, nid yn adroddiad ysgrifenedig yn unig. Hefyd, roedd mapio sicrwydd gyda thair llinell amddiffyn yn dechneg reoli dda mewn perthynas â risg.

Roedd dau floc adeiladu hanfodol ar gyfer unrhyw sefydliad yn eu lle eisoes: roedd y Gofrestr Risg yn dod gerbron y Cyngor yn rheolaidd; ac roedd gan holl bapurau'r Cyngor ddalen eglurhaol yn nodi faint o risg oedd yn gysylltiedig â'r hyn a gynigiwyd yn y papur ei hun.

Diolchwyd Helen Cargill am ei chyfraniad a gadawodd y cyfarfod. **Byddai copïau o'i sleidiau (a'r rhai a ddefnyddiwyd gan Betty Mason yn yr eitem flaenorol) yn cael eu hanfon at bob aelod o'r Cyngor.**

**Busnes Cyfrinachol y Cyngor ar 1 Medi 2017 – gweler cofnodion 5 i 7, a gofnodir ar wahân.**

**Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 8 i 14.**

#### 8. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 27 Medi 2017 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda

Cafodd cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd yn Wrecsam, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd pum mater wedi codi:

**Cofnod 8 – Cytundeb ffurfiol llofnodedig gyda Wales TUC Cymru:** roedd hwn wedi'i lofnodi heb unrhyw newidiadau a wnaed gan Gyngor Cyffredinol Wales TUC Cymru. Nid oedd dyddiad wedi'i gadarnhau hyd yn hyn ar gyfer y cyfarfod adolygu blynyddol gyda'u cynrychiolwyr oedd newydd ei sefydlu;

**Cofnod 9 – Diweddariad ar bapur briffio'r Grŵp Ymgyrchu ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad o Ddysgu Oedolion:** gohiriwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer y Senedd ym mis Rhagfyr, o ystyried y llithriad tebygol yn amserlen Adolygiad Llywodraeth Cymru, newid mewn personél gyda Gweinidog newydd dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (Eluned Morgan AC), a phenodiad yr AC oedd yn noddi ein hystafell fel y Cwnsler Cyffredinol. Roedd hyn yn golygu aildrefnu'r ymgyrch lobïo, yr ymgyrch hyrwyddo'r ddogfen gysylltiedig a'r defnydd o gytundeb meddalwedd â thâl cysylltiedig;

**Cofnod 10 – Adroddiad ar y gydgyhadledd â Chwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru:** cynhaliwyd y gydgyhadledd ar 18 Tachwedd 2017 yn unol â'r cynllun, ac roedd naw o'n cynrychiolwyr

ymhlith y mynychwyr. Cyflwynwyd cyfleoedd rhwydweithio a syniadau heriol ynghylch sut y gallem wreiddio delfrydau democrataidd ymhellach yn ein gwaith. Gallai camau dilynol gynnwys gwaith posibl gyda phartneriaid newydd, ac annog cysylltiadau rhwng mentrau cymdeithasol/cydweithredol a'n haddysg undebau llafur;

**Cofnod 11 – Diweddariad ar ddata addysgu a dysgu ar gyfer 2016-17: y cyfraddau cwblhau** llwyddiannus dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd oedd 88.6%. Disgwylir y ffigyrau terfynol a chysoni ystadegol llawn yn fuan;

**Cofnod 12 – Tri phrotocol ar gyfer aelodau'r Cyngor ar ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfathrebu:** o ystyried bod safbwyntiau gwahanol a diddordeb sylweddol yn yr eitem hon, **cynigiwyd a chytunwyd y dylid gohirio trafodaeth ar y mater hyd nes y cynhelir sesiwn hyfforddiant i'w harwain gan y Clerc yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr**, gyda'r protocolau ysgrifenedig drafft yn llunio man cychwyn ar gyfer trafodaeth.

## 9. Adroddiad Cryno'r Prif Weithredwr ar gyfer mis Tachwedd 2017

Siaradodd Kathryn Robson am y cynnydd a wnaed ar ailstrwythuro staff, gan gynnwys y ffaith na fu unrhyw ddiswyddiadau gorfodol hyd yn hyn ac ni ragwelwyd unrhyw ddiswyddiadau o'r fath. Bu deg diswyddiad gwirfoddol. Fodd bynnag, roedd dau brif agwedd ar yr ailstrwythuro heb eu gorffen – sef y pecyn telerau ac amodau ar gyfer tiwtoriaid; ac ailfodelu'r strwythur cyflwyno rhanbarthol/cenedlaethol.

Dywedodd Toni Schiavone unwaith eto fod bwlch mawr yn bodoli yn y farchnad o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a bod hyn yn gyfystyr â risg pe na baem yn manteisio ar y cyfleoedd a gynrychiolir. (Yn ogystal, holodd a oedd y ffaith fod ymgeiswyr dwyieithog o safon dda wedi gwneud cais am rôl y Prif Weithredwr yn golygu bod ein henw da yn y maes hwnnw wedi gwella, efallai.) Roedd Dafydd Rhys eisiau sicrwydd bod y swyddi tiwtoriaid a grybwyllir yn adran yr Adroddiad ar y cwricwlwm Cymraeg a dwyieithog yn cynnwys cyfrifoldebau datblygiadol – ac nid addysgu'n unig – gan y byddai un tiwtor amser llawn ychwanegol yn golygu cynnydd o 0.25% yn unig yn ein darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. **Dywedodd Kathryn Robson fod astudiaeth waelodlin yn cael ei chynnal ar yr agwedd hon ar ein darpariaeth**, a derbyniodd ei fod yn bwysig i ni fod ag ymrwymiad priodol i hyn.

Ynglŷn â Harlech, tynnodd Kathryn Robson sylw at brisiad y syrfëwr a oedd yn rhoi gwerth negyddol cyffredinol i'r campws, sef -£170,000. Soniodd David Elis-Williams am fynychu digwyddiad agored yn y dref y diwrnod cynt a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd a Chadw, ac am y wybodaeth oedd ar gael i'r cyhoedd lle'r oedd pwyslais ar westy fel yr opsiwn dewisol ar gyfer ein safle yn y dyfodol, ac a oedd yn awgrymu bod angen i ninnau ddod i benderfyniad terfynol ar y materion hyn. Yn y cyfamser, roedd y *Cambrian News* wedi parhau i ddyfynnu safbwyntiau negyddol amdanom, fel y mynegwyd gan un unigolyn. Dywedodd Kathryn Robson fod cynnydd ynglŷn â'r safle, er yn araf, yn weladwy wrth ddatrys materion yn gysylltiedig ag ariannu addasiadau i'r Bloc Amwynderau, dymchwel yr eiddo cyfagos, a dyfodol Theatr Ardudwy.

## 10. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2017

Nodwyd cofnodion cyfarfod diweddaraf y Pwyllgor. Fel Cadeirydd y Pwyllgor, tynnodd David Elis-Williams sylw at gofnod 7, a oedd yn cynnig y dylai adroddiadau'r Grŵp Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol fynd drwy'r Pwyllgor yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynrychioli newid yn y strwythur llywodraethu, ac esboniodd Kathryn Robson fod hyn yn rhan o adolygiad ehangach o'r drefn llywodraethu a fyddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ar ddiwedd mis Ionawr 2018, gan nodi nifer o linellau adrodd diwygiedig ar gyfer Grwpiau er mwyn symleiddio'r strwythur cyffredinol.

Y pris gwerthu enwol ar gyfer yr eiddo swyddfa yn Llanisien (gogledd Caerdydd) oedd tua £170,000: byddai unrhyw dderbyniad cyfalaf o'i werthiant yn cael ei ychwanegu at gronfeydd wrth gefn y sefydliad. Pe byddai'r eiddo'n cael ei rentu yn lle hynny, byddai'r refeniw yn mynd i'n cyfrif incwm a gwariant. Pe byddai'n cael ei werthu, cyflwynodd David Elis-Williams gynnig dros ystyried a ddylid defnyddio'r arian fel cyfandaliad i dalu rhan o ddiffyg ariannol y sefydliad o ran pensiynau.

#### 11. Cyfrifon rheoli ac adroddiad ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17

Heb nifer o elfennau untro gwahanol yn y cyfrifon, byddai'r diffyg ariannol am y flwyddyn wedi bod yn £9,000 (yn hytrach na'r rhagolwg o golled o £95,000). Fodd bynnag, roedd y symiau terfynol yn parhau heb eu harchwilio ac ni chadarnhawyd hyd yn hyn sut y byddai prisiad negyddol campws Harlech yn cael ei ddangos, neu beth fyddai'r ffigyrau pensiwn terfynol ar gyfer y flwyddyn. Codwyd mater ffioedd ar gyfer cyrsiau, mewn cysylltiad â Chredyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno a'r posibilrwydd o anawsterau talu eraill ymhlith dysgwyr. **Cytunwyd y dylai hyn fod yn eitem ar gyfer trafodaeth ar agenda nesaf y Pwyllgor Profiad y Dysgwyr.**

#### 12. Cyfrifon rheoli ar gyfer y 3 mis hyd at ddiwedd mis Hydref 2017

Nododd Mark Baines natur gadarnhaol y grant o £413,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno Saesneg ar gyfer Siaradwyr ieithoedd Eraill yn ardal Caerdydd drwy'r Prosiect Mynediad at Gyfathrebu ac Integreiddio, er ei fod i raddau helaeth yn cynrychioli symiau cyfatebol o arian yn mynd i mewn ac allan o'r sefydliad. Roedd yr ymrwymiad cyllidebol i gostau ailstrwythuro yn cynrychioli dyraniad o'r hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor ond heb ei ddefnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. **Cytunwyd, wedi i'r holl gostau hynny gael eu gwario, y dylai'r Cyngor dderbyn adroddiad cryno ar gostau cyffredinol yr ailstrwythuro a'r goblygiadau ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.**

#### 13. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2017

Nodwyd y prif bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod, ynghyd â'r cofnodion eu hunain. Adroddodd David Elis-Williams ar y teimladau negyddol yn Fforwm Rhanbarth y Gogledd Orllewin mewn perthynas â diweddu'r cwrs Technoleg Cerddoriaeth yn Harlech, a'r angen parhaus i ystyried darparu cyrsiau yn y maes pwnc hwnnw'n fwy cyffredinol. Cyfeiriodd Dafydd Rhys at grŵp allanol a oedd wedi dod at ei gilydd ar y mater hwn i edrych ar y posibiladau cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol yr oedd y maes cerddorol/diwylliannol yn eu cynrychioli'n genedlaethol.

#### 14. Diweddariad ar Safonau'r Gymraeg

Roedd trafodaethau gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg cyn derbyn yr hysbysiad cydymffurfio terfynol ym mis Medi yn golygu bod rhai o'r Safonau anoddaf wedi'u gollwng yn ein hachos ni, fel y nodwyd yn y papurau cysylltiedig. Fodd bynnag, roedd meysydd gwaith sylweddol yn parhau heb eu rhoi ar waith cyn i'n dyletswyddau deddfwriaethol ddod i rym ar 1 Ebrill 2018. Penodwyd Derbynydd Dwyieithog erbyn hyn i ddechrau ym mis Ionawr, ac roedd ffordd o gyflawni'r gwasanaeth hwnnw pan fyddai'r Derbynydd ar wyliau yn parhau i gael ei harchwilio.

## 15. Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gydnerthedd mewn Addysg Bellach

Esboniodd John Graystone gefndir yr ymarfer adolygu hwn, lle y cafodd ef, Rob Humphreys – a fu'n aelod o'r Cyngor tan yn ddiweddar – a Sue Pember – a luniodd y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru ar ran Colegau Cymru – eu gwahodd gan Lywodraeth Cymru i arwain y prosiect llywodraethu. Cyflwynwyd papur, gyda manylion am y 3 diwrnod hyfforddiant ac ymgynghori yn ystod mis Ionawr 2018, a gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i fynychu unrhyw un o'r diwrnodau hyn.

## 16. Adborth ar y cyfarfod a hunanasesiad o berfformiad

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau am strwythur cyfarfodydd y Cyngor a sut roedd aelodau'n teimlo y gellid gwella gweithdrefnau. Teimlwyd bod y cyflwyniadau ar ddechrau cyfarfodydd yn ddefnyddiol a phwysig, ac y dylid eu parhau. **Fel cam pellach, cytunwyd y dylid gwahodd cydweithwyr swyddfa ym mhob lleoliad lle cynhelir cyfarfodydd y Cyngor i ymuno â'r Cyngor dros fwyd a dewis arsylwr ar gyfer y cyfarfod yn ogystal.** Byddai cysylltu cyfarfodydd y Cyngor â fforymau rhanbarthol yn galluogi aelodau/dysgwyr/cyrff partner eraill y sefydliad i arsylwi hefyd – fel y bwriadwyd ers sefydlu'r fforymau. Hefyd, ystyriwyd ei fod yn gadarnhaol iawn bod problemau a materion addysgol dysgwyr wedi cael blaenoriaeth yn adroddiad y Prif Weithredwr, byddai bellach yn ymddangos ym mhob cyfarfod.

Gwnaed sylw bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei derbyn yn ysgrifenedig gan lywodraethwyr cyn cyfarfodydd, a bod y ddogfen pdf gyfunol unigol o bapurau pob cyfarfod yn arloesiad cadarnhaol. A fyddai'n bosibl cynnwys hefyd argymhellion/camau gweithredu yn deillio o gyfarfodydd y Cyngor ar ddalen eglurhaol cyn y cofnodion?

Cwestiwn a godwyd yn rhethregol oedd p'un ai oedd mewnbyn y Cyngor yn ddefnyddiol, yn ei dro, i'r Uwch Dîm Rheoli, i'r dysgwyr ac i'r sefydliad yn gyffredinol. Gallai diwrnod i ffwrdd ar gyfer staff a llywodraethwyr, i'w drefnu yn ystod 2018, ateb y pwynt eang hwnnw i ryw raddau.

## 17. Dyddiadau'r Cyngor sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer y dyddiadur

12.30 pm, dydd Mawrth 30 Ionawr 2018: Y Drenewydd, Powys  
12 hanner dydd, dydd Gwener 23 Mawrth 2018: Bryn Menai, Bangor

### PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r Cofnod	Cytundeb	I weithredu
Cofnod 2	Cadarnhau penodiad Prif Weithredwr a dau aelod newydd o'r Cyngor	Kathryn Robson fel Prif Weithredwr a Julie Cook a Guy Wallace Smith fel aelodau'r Cyngor yn cael eu cadarnhau yn unfrydol.	ST
Cofnod 4	Rheoli Risg ar gyfer aelodau'r Cyngor – sesiwn hyfforddiant	Copiâu o'i sleidiau (a'r rhai a ddefnyddiwyd gan Betty Mason yn yr eitem flaenorol) i'w hanfon at bob aelod o'r Cyngor.	ST

Cofnod 8	Tri phrotocol ar gyfer aelodau'r Cyngor ar ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfathrebu	Cytunwyd i ohirio'r drafodaeth ar y mater hyd nes y cynhelir sesiwn hyfforddiant i'w harwain gan y Clerc yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr.	ST
Cofnod 9	Darpariaeth addysgol trwy gyfrwng y Gymraeg	Astudiaeth waelodlin yn cael ei chynnal ar yr agwedd hon ar ein darpariaeth	KR
Cofnod 11	Ffioedd ar gyfer cyrsiau, mewn cysylltiad â Chredyd Cynhwysol	Cytunwyd y dylai hyn fod yn eitem ar gyfer trafodaeth ar agenda nesaf y Pwyllgor Profiad y Dysgwyr.	MB
Cofnod 12	Cyfrifon rheoli	Cytunwyd, wedi i'r holl gostau gael eu gwario, y dylai'r Cyngor dderbyn adroddiad cryno ar gostau cyffredinol yr ailstrwythuro a'i goblygiadau ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.	MB
Cofnod 16	Adborth ar y cyfarfod a hunanasesiad o berfformiad	Gwahodd cydweithwyr swyddfa ym mhob lleoliad lle cynhelir cyfarfodydd y Cyngor i ymuno â'r Cyngor dros fwyd a dewis arsylwr ar gyfer y cyfarfod yn ogystal.	ST